



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
RHONDDA CYNON TAF  
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod rhithwir o'r CABINET yn cael ei gynnal ar  
Dydd Iau, 25ain Mawrth, 2021 am 10.30 am**

**Dolen gyswllt: Hannah Williams - Blaen Swyddog Busnes Rheoleiddiol a  
Gweithredol  
(Rhif ffôn. 01443 424062)**

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Mawrth, 23 Mawrth 2021. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.

Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i [UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk](mailto:UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk)

**MATERION I'W TRAFOD**

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. COFNODION**

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2021 yn gofnod cywir.

**(Tudalennau 7 - 20)**

### **3. RHAGLEN WAITH Y CABINET**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y rhestr arfaethedig o faterion y mae angen i'r Cabinet eu hystyried yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2020–21.

**(Tudalennau 21 - 60)**

### **4. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, sy'n crynhoi gwahanol elfennau ar Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 20 Ionawr 2021. Mae'r adroddiad yn nodi cyd-destun a gofynion y Ddeddf, gan fanylu ar sefyllfa bresennol y Cyngor ac yn ceisio nodi'r swyddog(ion) arweiniol priodol a fydd yn ymwneud â chyflwyno'r gofynion deddfwriaethol.

**(Tudalennau 61 - 82)**

### **5. TREFNIADAU CYN Y CAM CRAFFU O'R ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL 2019-20**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, sy'n cyflwyno adborth y Pwyllgor Trosolwg a Craffu i'r Cabinet ar ôl iddo ystyried Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2019-2020.

**(Tudalennau 83 - 174)**

### **6. DYLETSWYDD ECONOMAIDD GYMDEITHASOL (DEDDF CYDRADDOLDEB 2010)**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol, sy'n rhoi gwybodaeth i'r Cabinet am y Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd a ddaw i rym ar 31 Mawrth 2021.

**(Tudalennau 175 - 178)**

### **7. STRATEGAETH DDRAFFT Y CYNGOR 2021-2025 – MYND I'R AFAEL Â NEWID YN YR HINSAWDD AR GYFER YMGYSYLLTIAD CYHOEDDUS**

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr, sy'n rhoi cyfle i'r Aelodau drafod Strategaeth Ddrafft y Cyngor - Mynd i'r Afael â Newid Hinsawdd - a chytuno i ymgysylltu ac ymgynghori â thrigolion a busnesau ar ymateb y Cyngor i Newid yn yr Hinsawdd.

**(Tudalennau 179 - 202)**

### **8. TREFNIADAU'R AWDURDOD LLEOL AR GYFER DIOGELU PLANT AC OEDOLION MEWN PERYGL**

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, sy'n darparu trosolwg o'r gwaith a wnaed i gyflawni'r camau gwella a nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru (Archwilio Cymru) mewn perthynas â chyfrifoldebau Diogelu Corfforaethol y Cyngor.

**(Tudalennau 203 - 212)**

**9. DIOGELWCH MENYWOD MEWN MANNAU CYHOEDDUS**

Derbyn adroddiad ar lafar gan y Cyfarwyddwr - Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned

**10. CYNNIG I DDARPARU GWASANAETHAU CYNGHORI AR ADDYSG RANBARTHOL A RENNIR AR GYFER PLANT A PHOBL IFAINC Â NAM SYNHWYRAIDD**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant, sy'n gofyn i'r Cabinet ystyried cynnig sy'n gofyn bod Carfan Synhwyrdd Rhondda Cynon Taf, o fewn y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant, yn newid o fod yn wasanaeth synhwyrdd ymreolaethol ar wahân i wasanaeth cyngori isranbarthol, addysgol a rennir ar gyfer plant a phobl ifainc sydd â nam ar y synhwyrddau.

**(Tudalennau 213 - 258)**

**11. ASESIAID DIGONOLRWYDD GOFAL PLANT – DIWEDDARIAD 2021**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant, sy'n rhoi diweddariad i'r Cabinet o adroddiad Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017-22 (CSA) a'r diweddariadau o ran y cynllun gweithredu blynyddol dilynol.

**(Tudalennau 259 - 268)**

**12. RHAGLEN GYFALAF ARFAETHEDIG Y GWASANAETHAU ADDYSG A CHYNHWYSIANT 2021/2022**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr, Addysg a Chynhwysiant, sy'n darparu manylion ynghylch y gwaith cyfalaf i'w gymeradwyo ar gyfer 2021/22, fel rhan o Raglen Gyfalaf dair blynedd y Cyngor.

**(Tudalennau 269 - 284)**

**13. RHAGLEN GYFALAF ATODOL 2021/22 AR GYFER Y PRIFFYRDD, TRAFNIDIAETH A CHYNLLUNIAU STRATEGOL**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen sy'n darparu'r rhaglen gyfalaf fanwl ar gyfer y Priffyrdd, Trafnidiaeth a Chynlluniau Strategol.

**(Tudalennau 285 - 308)**

**14. CYNLLUN RHYDDHAD ARDRETHI ANNOMESTIG (NDR) AR GYFER Y DIWYDIANT MANWERTHU, HAMDDEN A LLETYGARWCH**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol sy'n rhoi manylion am Ardrethi Annomestig Llywodraeth Cymru - Cynllun Rhyddhad y Diwydiant Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch ar gyfer 2021/22.

**(Tudalennau 309 - 316)**

**15. ADRODDIAD CYFLAWNIAD Y CYNGOR – 31 RHAGFYR 2020  
(CHWARTER 3)**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol sy'n rhoi trosolwg o gyflawniad y Cyngor, yn ariannol ac yn weithredol, sy'n seiliedig ar naw mis cyntaf y flwyddyn ariannol yma (hyd at 31 Rhagfyr 2020).

**(Tudalennau 317 - 342)**

**16. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD**

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.”

**17. CAFFAEL HEN SAFLE FFATRI CHUBB, YSTAD DDIWYDIANNOL  
MAERDY, GLYNRHEDYNOG, RHCT, CF43 4AB**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor sy'n ceisio awdurdod i gaffael budd Rhydd-ddaliadol tir sy'n cynnwys Hen Safle Ffatri Chubb, Ystad Ddiwydiannol Maerdy, Glynrhedynog, RhCT sydd wedi'i leoli mewn safle allweddol ger daliadau tir preifat a chynghorau, i hwyluso datblygiad Ysgol Gynradd Gymraeg newydd a / neu ddatblygu'r safle i ddiwallu anghenion y gymuned leol.

**(Tudalennau 343 - 350)**

**18. DATBLYGIAD GOFAL YCHWANEGOL DANMYNYDD (PORTH)**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, sy'n darparu diweddariad ar ailddatblygiad hen Gartref Gofal Danymnydd, Porth, ar gyfer darparu tai gofal ychwanegol fel rhan o raglen datblygu tai gofal ychwanegol y Cyngor, a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Cabinet, ac sy'n ceisio cymeradwyaeth i'r gyllideb a'r cyllid cyfalaf gofynnol i gyflawni'r cynllun.

**(Tudalennau 351 - 358)**

**19. MATERION BRYD**

Trafod unrhyw faterion bryd y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)  
Y Cynghorydd R Bevan  
Y Cynghorydd A Crimmings  
Y Cynghorydd M Norris  
Y Cynghorydd J Rosser  
Y Cynghorydd R Lewis  
Y Cynghorydd C Leyshon  
Y Cynghorydd G Hopkins

**Swyddogion:** Chris Bradshaw, Prif Weithredwr  
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau  
Democrataidd a Chyfathrebu  
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a  
Gwasanaethau Rheng-flaen  
Paul Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a  
Gwasanaethau i Blant  
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol  
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor  
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu  
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol  
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol  
Louise Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a  
Gwasanaethau'r Gymuned  
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau  
Cynhwysiant  
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a  
Datblygu  
Paul Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a  
Gwella